

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 18 Hydref 2012

Amser:
08:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Polisi: Marc Wyn Jones
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505 / 029 2089 8120
pwylgor.CCLLI@cymru.gov.uk

Agenda

Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 08.30 – 08.50

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2. Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013/14 (08.50 – 09.50) (Tudalennau 1 – 12)

Llywodraeth Cymru
CELG(4)-23-12 – Papur 1

Huw Lewis AC, Y Gweinidog Tai, Adfwyio a Threftadaeth
John Howells, Cyfarwyddwr Tai, Adfwyio a Threftadaeth
Kath Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd

3. Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013/14 (09.50 – 10.30) (Tudalennau 13 – 18)

Llywodraeth Cymru
CELG(4)-23-12 – Papur 2

Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Carla Lyne, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Caroline Turner, Dirprwy Gyfarwyddwr Uned y Gymraeg

4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10.30)

Eitemau 5 i 8b

5. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru – ystyried yr adroddiad drafft (10.30 – 10.50) (Tudalennau 19 – 63)

6. Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor (10.50 – 11.00) (Tudalennau 64 – 65)

7. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Bathodynnau Parcio Personau Anabl – Ystyried y dystiolaeth a'r adroddiad drafft (11.00 – 11.20) (Tudalennau 66 – 82)

- Tystiolaeth gan Anabledd Cymru;
- Adroddiad drafft.

8. Papurau i'w nodi (11.20)

CELG(4)-23-12 – Papur 3 – Gwybodaeth ychwanegol gan Sue Cohen
(Tudalennau 83 – 90)

CELG(4)-23-12 – Papur 4 – Gwybodaeth ychwanegol gan yr Athro Teresa Rees
(Tudalennau 91 – 112)

Eitem 2

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Dyddiad: 18 Hydref 2012

Amser: 8:50 - 9:50

Teitl: **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft:
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor ynglŷn â chynlluniau gwariant y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft.
2. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad o'r Gyllideb Ddrafft, fesul Cam Gweithredu a fesul Llinell Wariant (BEL) o fewn pob Cam Gweithredu.

Cefndir a Chrynodeb

3. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai, Adfywio a Threftadaeth fel a ganlyn:

Maes y Rhaglen Wariant	Cyllideb Atodol 2012-13 £'000	Cyllideb Ddrafft 2013-14 £'000	Cynlluniau Dangosol 2014-15 £'000
Refeniw:			
Polisi Tai	150,493	150,736	150,741
Cartrefi a Lleoedd	15,038	17,278	17,278
Y Celfyddydau	34,802	35,643	35,643
Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd	37,436	37,445	37,445
Chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniol	24,923	24,853	24,899
Y cyfryngau a chyhoeddi	3,980	3,926	3,926
Yr amgylchedd hanesyddol	11,658	11,541	11,541
Cyfanswm Refeniw	278,330	281,422	281,473
Cyfalaf			
Polisi Tai	1,641	1,641	1,641
Cartrefi a Lleoedd	302,566	263,529	257,029
Y Celfyddydau	455	450	450
Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd	3,973	4,043	4,043
Chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniol	345	345	345
Y cyfryngau a chyhoeddi	25	25	25
Yr amgylchedd hanesyddol	5,313	5,031	5,031
Cyfanswm Cyfalaf	314,318	275,064	268,564
Cyfanswm y DEL*	592,648	556,486	550,037

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Rhoddir manylion isod.

- Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu ailstrwythuro'r cyllidebau er mwyn rhoi cryfach pwyslais ar gyflawni blaenoriaethu'r Llywodraeth, gan gynnwys cyflenwi tai ychwanegol ochr yn ochr â'r gweithgarwch adfywio, a chydabod pwysigrwydd mabwysiadu dull integredig yn ein gweithgareddau ailddatblygu. Darperir cysoniad o'r ailstrwythuriad cyllidebau yn Atodiad B

Newidiadau i'r gyllideb

- O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2013-14 a 2014-15 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2012-13, mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Tai, Adfywio a Threftadaeth wedi cynyddu o **£14.3m yn 2013-14 a £7.8m yn 2014-15**. Cyfansoddir y newidiadau hyn fel a ganlyn:

	Cyllideb Ddrafft 2013-14 £'000	Cynlluniau Dangosol 2014-15 £'000
Refeniw:		
Cyllid ychwanegol ar gyfer y Bond Tai	2,000	2,000
Trosglwyddo'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl allan i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	(175)	(170)
Cyfanswm Refeniw	1,825	1,830
Cyfalaf:		
Cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer :		
Partneriaeth Tai Cymru – i gynorthwyo cyflawni'r flaenoriaeth 'Buddsoddi mewn tai	6,000	6,000
Cynllun Ailddatblygu Tai Gorllewin y Rhyl	5,000	
Adfer Hen Neuad y Dref ym Merthyr Tudful	1,500	
Cyfanswm Cyfalaf	12,500	6,000
Cyfanswm	14,325	7,830

- Yn ogystal, gwnaed nifer o newidiadau rhwng llinellau cyllideb. Yn benodol, mae'r cyllidebau refeniw ar gyfer adfywio ac ar gyfer polisi tai wedi eu cwtdgi £1.8m a £0.2m yn eu trefn, a'r cyfanswm o £2m wedi ei drosglwyddo i linell gyllideb newydd sy'n darparu cymorth refeniw ar gyfer costau ariannu buddsoddiad uwch mewn tai cymdeithasol. Mae'r swm hwn, ynghyd â'r dyraniad ychwanegol i'r MEG o £2m, a drosglwyddwyd o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, wedi creu cyfanswm llinell gyllideb o **£4m** i'w ddefnyddio ar gyfer costau ariannu mecanwaith newydd i gynyddu'r buddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Bydd hyn yn darparu buddsoddiad rhag blaen o tua £100m ac yn cyflenwi mwy na 1,250 o unedau eiddo.

Y Rhaglen Lywodraethu

7. Mae cylch gwaith yr Adran yn un eang, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu polisiau ar dai, adfywio, y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniol, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, a'r amgylchedd hanesyddol.
8. Mae nifer o brif nodau'r Adran yn cael eu hadlewyrchu ledled y Rhaglen Lywodraethu, ac y mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi yn 2013-14 a thu hwnt. Byddwn yn sicrhau bod gan bobl dai cynnes a diogel, o ansawdd da, i fyw ynddynt, a gwasanaethau effeithiol i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen i fyw yn annibynnol. Mae'n debygol mai yn y tymor hir y teimlir effaith rhai o'n hymyriadau yn y maes hwn, wrth inni newid y ddeddfwriaeth gynllunio ac ychwanegu at ein stoc o dai cymdeithasol.
9. Byddwn yn parhau i adfywio aneddiadau a chymunedau allweddol gan gynnwys ein trefi glan môr; ac yn cefnogi diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ddarparu gwell sylfaen o leoedd, diwylliant, chwaraeon a chyfryngau bywiog a ffyniannus.

Y Blaenoriaethau Cyllidebol

10. Rwyf wedi cynnal adolygiad o'm cyllidebau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gydnaws â'r blaenoriaethau a bennir yn y Rhaglen Lywodraethu. Golygodd hyn ail flaenoriaethu'r cyllidebau refeniw, a thrwy hynny drosglwyddo £1.8m o'r gyllideb adfywio a £0.2m o'r gyllideb polisi tai i Fenter Tai newydd er mwyn sicrhau £100m o fuddsoddiad ychwanegol mewn tai cymdeithasol, a gefnogir gan gyllideb refeniw fel a nodir uchod – mae hyn yn adlewyrchu'r angen gor-redol i ddarparu tai ychwanegol ar gyfer cymunedau Cymru.
11. Yn ychwanegol, mae'r Is-adrannau Tai ac Adfywio a'u cyllidebau cysylltiedig wedi eu hailstrwythuro, er mwyn creu Is-adrannau newydd, sef Polisi Tai, a Cartrefi a Lleoedd – er mwyn cryfhau'r pwyslais ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae'r Is-adran Cartrefi a Lleoedd yn dwyn at ei gilydd y cyfrifoldebau am gyflenwi tai ychwanegol, safonau tai a chyllid arloesol, ochr yn ochr â gweithgareddau adfywio, gan gydnabod pwysigrwydd dull integredig o ymgymryd â'n gweithgareddau ailddatblygu.
12. Y canlynol yw'r prif weithgareddau yn y Rhaglen Lywodraethu a gyflenwir o'r portffolio hwn:

Tai

13. Roedd ein Papur Gwyn ar Dai, a gyhoeddwyd yn 2012, yn pennu rhaglen uchelgeisiol o weithredu deddfwriaethol ac anneddfwriaethol er mwyn cyflawni fy mlaenoriaethau strategol ar gyfer tai, sef: cynyddu'r cyflenwad o dai; gwella ansawdd y cyflenwad; a gwella'r gwasanaethau sy'n ymwneud â thai – yn enwedig i rai sy'n agored i niwed neu'n ddigartref.

Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai

14. Rydym yn gweithio i ysgogi adeiladu tai drwy weithredu o fewn y system gynllunio i ryddhau mwy o dir; drwy hwyluso rhyddhau tir cyhoeddus ar gyfer adeiladu tai; a thrwy ymchwilio i ddulliau arloesol o ysgogi buddsoddi preifat mewn tai. Bydd y mesurau a bennir yn y Bil Tai a'r Bil Cynllunio yn cefnogi hyn. Cyhoeddwyd y cynigion ar gyfer y Bil Tai a chamau eraill i gynyddu'r cyflenwad o dai, yn y Papur Gwyn ar Dai.
15. Mae cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai yn sylfaenol i'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod gan bobl dai i fyw ynddynt sy'n gynnes a diogel ac o ansawdd da. Ar 14 Mai, amlygais f'ymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy gyhoeddi targedau tai newydd ar gyfer tymor y Llywodraeth bresennol. Ein nod yw sicrhau yr adeiledir 7,500 o dai fforddiadwy newydd ac y dygir 5,000 o unedau gwag yn ôl i'w defnyddio fel tai annedd. Y canlynol yw rhai o'r mentrau a fydd yn cyfrannu at gyrraedd y targedau hyn:
- **Creu'r llinell gyllideb refeniw £4m i gynorthwyo rhagor o fuddsoddi mewn tai cymdeithasol** Tai, er mwyn cyflenwi dros 1,250 o unedau fel a nodir uchod;
 - Sicrhau cyllid ychwanegol o **£6m y flwyddyn** yn 2013-14 ac yn 2014-15 i ehangu **Partneriaeth Tai Cymru**, sy'n bartneriaeth ar y cyd â chymdeithasau tai. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn trosoli i mewn £48m ychwanegol o'r sector preifat, ac yn cyflenwi 560 o dai fforddiadwy ychwanegol; a
 - Cronfa ar gyfer benthyciadau ailgylchadwy yw sylfaen y rhaglen Troi Tai'n Gartrefi, **sydd â chyllideb o £10m a sefydlwyd yn 2012-13**. Bydd ad-daliadau o'r benthyciadau hyn yn cael eu hailgylchu dros y tair blynedd nesaf er mwyn dwyn rhagor o eiddo a fu'n wag am dymor hir yn ôl i'w ddefnyddio fel cartrefi.

Gwella ansawdd y tai

16. Mae sicrhau bod gan bobl gartref sy'n bodloni eu hanghenion – tai cynnes, fforddiadwy, diogel, mewn cyflwr da nad ydynt yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd – yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae cartrefi pobl yn rhan hanfodol o'u bywyd, yn effeithio ar iechyd a lles ac ar ansawdd a chyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd. Rydym yn parhau i fuddsoddi £108m y flwyddyn ar gyfer y Lwfans Atgyweiriadau Mawr a'r Gronfa Taliadau Gwaddoli. Mae'r gyllideb hon yn ariannu atgyweiriadau mawr i dai awdurdod lleol, a thaliadau gwaddoli ar gyfer eiddo awdurdodau lleol sydd bellach wedi ei drosglwyddo i landlordiaid cymdeithasol newydd. Mae'r ddwy ffrwd gyllido yn cyfrannu at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sydd â'r nod cyffredinol o sicrhau bod y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae hyn yn sylfaenol i nifer o amcanion strategol Llywodraeth Cymru – megis mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi, gwella canlyniadau iechyd a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi.

Gwella gwasanaethau a chymorth tai Tlodi ac amddifadedd sylweddol

17. Rydym yn parhau i fuddsoddi **£136m y flwyddyn** i gyflenwi cymorth ynglŷn â thai i bobl sy'n agored i niwed, drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Rhaid i'r rhaglen honno barhau'n flaenoriaeth os ydym am ymladd yn erbyn effaith y diwygiadau lles a'r dirywiad economaidd presennol. Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo tua 50,000 o bobl bob blwyddyn, ac yn darparu gwerth da am bob punt a fuddsoddir mewn amrywiaeth o raglenni.
18. Rydym hefyd wedi ymrwmo i atal digartrefedd, sef un o'r mathau mwyaf eithafol o amddifadedd, a byddwn yn cynnal y buddsoddiad o **dros £7m** i gefnogi'r agenda bwysig honno yn 2013-14. Rydym yn ceisio datrys yr anawsterau ochr-cyflenwad er mwyn bodloni'r galw, a bydd cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy o gymorth yn hynny o beth. Mae'n gwaith yn cynnwys cymorth ym mhob maes i helpu pobl i ymdopi ag effaith y newidiadau mewn Budd-dal Tai sy'n rhan o agenda Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio Lles
19. Mae galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, rydym wedi diogelu ein buddsoddiad cyfalaf o **£1.6m** y flwyddyn yn y Rhaglen Addasiadau Brys, a byddwn hefyd yn darparu cymorth referniw o **£0.5m** i'r rhaglen honno. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn darparu cyllid referniw o **£4.7m** yn 2013-14 ar gyfer yr asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n cyflawni'r gwaith, a'r gwasanaethau creiddiol sy'n darparu cyngor perthnasol. Mae'r rhaglen hon, ar yr un pryd, yn lleihau'r pwysau ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, drwy alluogi pobl i adael yr ysbyty neu ofal preswyl cyn gynted ag y gallant. Rydym felly yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng tai, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Adfywio canol trefi a threfi glan môr

20. Mae'r rhaglen adfywio yn cynnwys cyfres integredig o weithredu a buddsoddi a dargedir sy'n amcanu i wrthdroi dirywiad yr ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a chyflawni adfywiad cynaliadwy. Bydd y gyllideb o **£66m** yn 2013-14 yn parhau i gynnal cyfres o ymyriadau a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol yng Nghymru, lle byddwn yn cydweithio ag asiantaethau lleol i fynd i'r afael ag anghenion dybryd ac amddifadedd lluosog. Rydym yn cydweithio â phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ac o'r trydydd sector, i ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu cydgysylltiedig a holistig a fydd yn rhoi sylw i'r anghenion a'r cyfleoedd lleol. Er mwyn cynyddu effaith hyn ar leoedd a phobl, defnyddir y cyllid buddsoddi i drosoli symiau ychwanegol o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, y sector cyhoeddus ehangach a buddsoddwyr o'r sector preifat.
21. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cwblhau ei hymrwymyiadau ar draws y saith Ardal Adfywio (Blaenau'r Cymoedd, y Cymoedd Gorllewinol, Môn a Menai, Arfordir Gogledd Cymru, Aberystwyth, Abertawe a'r Barri) a raglenni a etifeddwyd gan gynnwys Casnewydd. Defnyddir y buddsoddiad o'n Hardaloedd Adfywio fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy'n denu cyllid Ewropeaidd; mae'r mwyaf o'r prosiectau hyn yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd, partneriaeth o dros 40 o sefydliadau a gydgyssylltir gennym ni. Rydym hefyd yn darparu grantiau disgresiynol i sefydliadau o'r trydydd sector, i hyrwyddo a hwyluso arferion adfywio

llwyddiannus; ac y mae cyfrifoldeb statudol arnom i gyllido Awdurdod Harbwr Caerdydd.

22. Yn rhan o'r ymgyrch i adfywio ardaloedd difreintiedig, dyrannwyd **£5m** ychwanegol yn 2013-14 ar gyfer Cynllun Ailddatblygu Tai Gorllewin y Rhyl, a **£1.5m** ar gyfer adfer Hen Neuadd y Dref, Merthyr Tudful.

23. Ar hyn o bryd, rwyf yn cynnal adolygiad polisi sy'n ystyried y dulliau adfywio a ddefnyddir gennym, ac yn ystod yr hydref eleni byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer cyflenwi a buddsoddi yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn darparu fframwaith Adfywio newydd, gyda threfn lywodraethu gryfach, dull o weithredu sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd, a strwythur cyflenwi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Craidd yr adolygiad hwn fydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog dull 'Llywodraeth-gyfan' o adfywio ac i weithio mewn ffordd wirioneddol integredig, er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i'r cymunedau. Cyhoeddir y polisi newydd yn Chwefror 2013, ynghyd â chynlluniau ar gyfer blwyddyn drosiannol yn 2013-2014 er mwyn pontio unrhyw fwlch rhwng dull y Ardaloedd Adfywio a'r dull newydd.

Ehangu mynediad i'n diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ac annog rhagor i gymryd rhan

Y Celfyddydau

24. Cyfanswm y cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14 fydd **£34.0m**. Mae'r ganran o bobl o'r grwpiau a dangynrychiolir sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi bod yn codi ers 2006, ac y mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi sefydliadau sy'n annog cyfranogi'n uniongyrchol yn y celfyddydau. Cyhoeddwyd 'Creawdwy'r Ifanc' ym mis Tachwedd 2011, sef strategaeth newydd CCC ar gyfer plant, pobl ifanc a'r celfyddydau.

25. Ar y cyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, rwyf wedi cychwyn Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg, a fydd yn edrych ar ddealltwriaeth o'r celfyddydau a chyfranogiad ynddynt mewn ysgolion yng Nghymru, ac arferion cyfredol mewn addysg gelfyddydol. Bydd yn edrych ar yr hyn y mae'r ysgolion yn ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau ac i ddatblygu eu sgiliau creadigol. Bydd yn nodi arferion da ac yn gwneud argymhellion ar sut y gall ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau celfyddydol a Llywodraeth Cymru wella'r canlyniadau addysgol sy'n deillio o gymryd rhan yn y celfyddydau. disgwylir i'r Adolygiad ddod i ben erbyn 31 Mawrth 2013.

Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd

26. Mae cyfanswm cyllid o **£12m** wedi ei sicrhau o Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Nod y prosiect yw adeiladu ar boblogrwydd Sain Ffagan fel hoff atyniad ymwelwyr y DU a chyfuno cryfderau amgueddfa awyr agored gyda chryfderau amgueddfa gonfensiynol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect hwn sy'n hollbwysig yn strategol i Gymru, ac wedi clustnodi **£7m** iddo dros gyfnod oes y prosiect.

27. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i barhau i gynnig mynediad di-dâl i'r saith safle a weithredir gan Amgueddfa Cymru – National Museum Wales. Ategir hyn gan y cymorth grant o **£24.6m** a ddarperir i'r Amgueddfa yn 2013/14.
28. Cyfanswm y cyllid Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer 2013-14 fydd **£11.0m**. Mae'r fframwaith datblygu strategol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru, *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2011, yn gydnaws a blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ac yn annog rhagor o gydweithio wrth gaffael a chyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus. Rhai o flaenoriaethau *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yw moderneiddio adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus, datblygu system rheoli llyfrgelloedd ar gyfer Cymru a hyrwyddo darllen a llythrennedd digidol.
29. Un o'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu yw datblygu potensial y cyfryngau digidol i hyrwyddo diwylliant drwy gyfrwng *Casgliad y Werin Cymru / People's Collection Wales* a mentrau ar-lein eraill. Darperir cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid blaen Casgliad y Werin Cymru sy'n darparu'r rhaglen arloesol hon. Mae'r wefan a'r rhaglen o weithgareddau ategol yn ymchwilio i ffyrdd newydd a chyffrous o gasglu, archwilio, darganfod a rhannu straeon Cymru a'i phobl.

Cadw

30. Byddwn yn darparu cyllid o **£14.2m** yn 2013-14 i gefnogi Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Un o gyfrifoldebau Cadw yw diogelu ein treftadaeth, sy'n cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd ac adeiladau a henebion rhestredig. Mae Cadw hefyd yn gweithio i gynnal cymeriad nodweddiadol ein trefi a'n tirlun, ac yn cynorthwyo pobl i ddeall a gwerthfawrogi eu lleoedd a'u hanes. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cyfraniad hwn, yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac wedi ymrwymo i barhau rhaglenni gwaith Cadw. Rydym wedi ymrwymo hefyd i gyflenwi'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, gwerth **£19m**, a fydd yn hwyluso mynediad i lawer o'n henebion ac yn gwella'r profiad i'r ymwelwyr.

Chwaraeon

31. Drwy gyfrwng Chwaraeon Cymru, rydym yn parhau i gefnogi ystod eang o fesurau sy'n hyrwyddo lefelau uwch o weithgarwch egniïol ac o gyfranogi mewn chwaraeon. Yn rhan o'r cynllun gweithredu Creu Cymru Egniïol, rydym yn buddsoddi mewn chwaraeon cymunedol ac yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau chwaraeon. Bellach, mae'n rhaglenni nofio am ddim yn rhoi'r pwyslais ar weithgareddau strwythuredig i helpu rhagor o bobl ifanc i nofio a'u hannog i gymryd rhan yn amlach, a thrwy gydol eu hoes, mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniïol. Cyfanswm y cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru yn 2013-14 fydd **£24.1m**.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

32. Mae'r cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys y canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer unrhyw gostau pensiwn, a allai godi mewn perthynas â chynlluniau pensiwn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Cenedlaethol Cymru. Y cyfanswm ar gyfer 2013-14 yw £2.740m. Cyllideb anariannol yw hon; a
- Swm credyd - o £71m yn 2013-14 – sy'n cynrychioli'r swm, a gyfrifir ar sail fformiwla, y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru ei ad-dalu i'r Trysorlys mewn perthynas â system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS). Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol wedi prynu eu hunain allan o'r system, ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr opsiwn o wneud yr un modd yng Nghymru.

HOUSING, REGENERATION AND HERITAGE MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)

£'000s

REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit

SPA	BEL	BEL Number	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
Housing Policy	Supporting People	1011	136,978	136,558	0	136,558	136,558	0	136,558
	Homelessness	1120	7,150	7,181	0	7,181	7,181	0	7,181
	Home Improvement Agencies	1100	4,671	4,691	0	4,691	4,691	0	4,691
	Independent Living	1285	430	432	0	432	432	0	432
	Independent Living		5,101	5,123	0	5,123	5,123	0	5,123
	Policy Development and Implementation	1161	172	173	0	173	173	0	173
	Policy Research and Evaluation	1181	232	232	-175	57	232	-170	62
	Social Housing and Management Grant	1220	1,860	1,824	-180	1,644	1,824	-180	1,644
	Policy Development and Implementation		2,264	2,229	-355	1,874	2,229	-350	1,879
	Total Housing Policy		150,493	151,091	-355	150,736	151,091	-350	150,741
	Achieve quality Housing	1162	274	274	0	274	274	0	274
	Housing Enablers	1286	95	95	0	95	95	0	95
Increase the Supply and Choice of Housing	984	0	0	4,000	4,000	0	4,000	4,000	
Increase the Supply and Choice of Housing		95	95	4,000	4,095	95	4,000	4,095	
Affordable homes	1014	115	115	0	115	115	0	115	
Policy research and evaluation	1181	14	14	0	14	14	0	14	
Social Housing Management Grants	1220	156	203	-20	183	203	-20	183	
Policy research and evaluation		285	332	-20	312	332	-20	312	
Regeneration	4151	6,184	6,397	-1,800	4,597	6,397	-1,800	4,597	
Manage Delivery of Legacy Regeneration Areas	4162	8,200	8,000	0	8,000	8,000	0	8,000	
Regeneration		14,384	14,397	-1,800	12,597	14,397	-1,800	12,597	
Total Homes and Places		15,038	15,098	2,180	17,278	15,098	2,180	17,278	
Arts Council of Wales - Running Costs	5800	2,284	2,181		2,181	2,181		2,181	
Arts Council of Wales - Current Expenditure (inc WMC)	5800	31,218	31,490		31,490	31,490		31,490	
Arts Council of Wales - Depreciation	5800	119	119		119	119		119	
Support for the Arts incl INBGW	5812	1,181	1,853		1,853	1,853		1,853	
Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others		34,802	35,643	0	35,643	35,643	0	35,643	

SPA	Actions	BEL	BEL Number	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
		Angueddfa Cymru - National Museum of Wales - Running Costs	5540	24,051	24,040	80	24,120	24,040	164	24,204
	Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services	Angueddfa Cymru - National Museum of Wales - Current Receipt	5540	-1,604	-1,604	-80	-1,684	-1,604	-164	-1,768
		Angueddfa Cymru - National Museum of Wales - Depreciation	5540	1,120	1,120		1,120	1,120		1,120
		Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services		23,567	23,556	0	23,556	23,556	0	23,556
		National Library of Wales - Running Costs/ Current Expenditure	5560	10,525	10,821	-280	10,541	10,821	-259	10,562
	Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services	National Library of Wales - Current Receipts	5560	-400	-400	-20	-420	-400	-41	-441
		National Library of Wales - Depreciation	5560	1,250	1,250		1,250	1,250		1,250
		Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services		11,375	11,671	-300	11,371	11,671	-300	11,371
		CYMAL - Current Expenditure	6170	216	206		206	206		206
		CYMAL - Grants	6170	1,678	1,712		1,712	1,712		1,712
	Strategic Leadership for museum, archive & library services	CYMAL - Peoples' Collection	6170	600	300	300	600	300	300	600
		Strategic Leadership for museum, archive & library services		2,494	2,218	300	2,518	2,218	300	2,518
	Total Museums, Archives and Libraries			37,436	37,445	0	37,445	37,445	0	37,445
		Sports Council for Wales - Running Costs	5900	1,390	1,327		1,327	1,327		1,327
		Sports Council for Wales - Depreciation	5900	779	779		779	779		779
	Delivery of effective sports & physical activity programmes	Sport & Active Wales Fund - Current Expenditure	6010	22,600	22,400	174	22,574	22,400	357	22,757
		Sport & Active Wales Fund - Free Swimming	6010	3,500	3,500		3,500	3,546		3,546
		Sport & Active Wales Fund - Current Receipts	6010	-3,484	-3,484	-174	-3,658	-3,484	-357	-3,841
		Support for Sport & Physical Activity	6012	138	331		331	331		331
	Total Delivery of effective sports & physical activity programmes			24,923	24,853	0	24,853	24,899	0	24,899
	Media and Publishing	Welsh Books Council - Running Costs	6150	1,207	1,153		1,153	1,153		1,153
		Welsh Books Council - Current Grants	6150	2,773	2,773		2,773	2,773		2,773
	Total Media and Publishing			3,980	3,926	0	3,926	3,926	0	3,926
		Cadw - Running Costs/Current Expenditure	2700	12,196	12,144	250	12,394	12,144	513	12,657
		Cadw - Grants	2700	1,995	2,016		2,016	2,016		2,016
		Cadw - Current Receipts	2700	-5,000	-5,000	-250	-5,250	-5,000	-513	-5,513
	Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment	Cadw - Depreciation	2700	275	275		275	275		275
		RCAHM - Running Costs/Current Expenditure	6200	1,973	1,885	4	1,889	1,885	8	1,893
		RCAHM - Grants	6200	165	167		167	167		167
		RCAHM - Current Receipts	6200	-80	-80	-4	-84	-80	-8	-88
		RCAHM - Depreciation	6200	134	134		134	134		134
	Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment			11,658	11,541	0	11,541	11,541	0	11,541
	Total Revenue - Housing, Regeneration and Heritage			278,330	279,597	1,825	281,422	279,643	1,830	281,473

CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit									
SPA	Actions	BEL	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
Housing Policy	Independent Living		1,641	1,641		1,641	1,641		1,641
	Total Housing Policy		1,641	1,641	0	1,641	1,641	0	1,641
	Achieve quality housing		108,000	108,000	0	108,000	108,000	0	108,000
			47,186	37,470	0	37,470	37,470	0	37,470
			14,258	11,537	0	11,537	11,537	0	11,537
	Achieve quality housing		169,444	157,007	0	157,007	157,007	0	157,007
Homes and Places	Increase the supply and choice of Quality Housing		71,098	43,833	5,000	48,833	43,833	5,000	48,833
			5,417	4,301		4,301	4,301		4,301
	Increase the supply and choice of Quality Housing		76,515	48,134	5,000	53,134	48,134	5,000	53,134
	Implementaiton of Strategic Regeneration Areas		41,630	33,000	7,500	40,500	33,000	1,000	34,000
Regeneration	Manage Delivery of Legacy Regeneration Areas		3,400	2,000	0	2,000	2,000	0	2,000
	Local Authority Regeneration General Capital Funding		11,577	10,888	0	10,888	10,888	0	10,888
	Total Regeneration		56,607	45,888	7,500	53,388	45,888	1,000	46,888
	Total Homes and Places		302,566	251,029	12,500	263,529	251,029	6,000	257,029
Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others	Arts Council of Wales - Capital Investment (inc WMC)		355	355	0	355	355	0	355
	Support for the Arts - Capital Investment (inc NBGW)		100	95	0	95	95	0	95
	Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others		455	450	0	450	450	0	450
Museums, Archives and Libraries	Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services		600	600	0	600	600	0	600
			538	538	0	538	538	0	538
			0	1,000	0	1,000	1,000	0	1,000
	Total Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services		1,138	2,138	0	2,138	2,138	0	2,138
	National Library of Wales - Capital Maintenance Grant		550	550	0	550	550	0	550
	National Library of Wales - Specimen Purchase Grant		305	305	0	305	305	0	305
	National Library of Wales - Electronic Legal Deposit		100	0	0	0	0	0	0
	National Library of Wales - Replace Library Roof		530	0	0	0	0	0	0
	Total Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services		1,485	855	0	855	855	0	855
	CyMAL - Peoples' Collection		100	50	0	50	50	0	50
	CyMAL - Capital		1,250	1,000	0	1,000	1,000	0	1,000
	Total Strategic Leadership for museum, archive & library services		1,350	1,050	0	1,050	1,050	0	1,050
	Total Museums, Archives and Libraries		3,973	4,043	0	4,043	4,043	0	4,043

SPA	Actions	BEL	BEL Number	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
Delivery of effective sports & physical activity programmes	Delivery of effective sports & physical activity programmes	Sport and Active Wales Fund - Capital Expenditure	6010	400	400	3	403	400	6	406
		Sport and Active Wales Fund - Capital Receipts	6010	-55	-55	-3	-58	-55	-6	-61
Total Delivery of effective sports & physical activity programmes				345	345	0	345	345	0	345
Media and Publishing	Media and Publishing	Welsh Books Council - Capital		25	25	0	25	25	0	25
Total Media and Publishing				25	25	0	25	25	0	25
Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment	Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment	Cadw - Capital Expenditure	2700	5,298	5,016	0	5,016	5,016	0	5,016
		RCAHM - Capital Expenditure	6200	45	45	2	47	45	3	48
		RCAHM - Capital Receipts	6200	-30	-30	-2	-32	-30	-3	-33
Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment				5,313	5,031	0	5,031	5,031	0	5,031
Total Capital - Housing, Regeneration and Heritage				314,318	262,564	12,500	275,064	262,564	6,000	268,564

REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure										
SPA	Actions	BEL	BEL Number	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
Museums, Archives and Libraries	Museums	Museums Pensions		1,976	2,174	0	2,174	2,174	0	2,174
	Libraries	Libraries Pensions		514	566	0	566	566	0	566
Total Museums, Archives and Libraries				2,490	2,740	0	2,740	2,740	0	2,740
Housing	Achieve quality housing	Housing Revenue Account Subsidy	1300	-68,000	-55,000	-16,000	-71,000	-55,000	-16,000	-71,000
Total Housing				-68,000	-55,000	-16,000	-71,000	-55,000	-16,000	-71,000
Total AME - Housing, Regeneration and Heritage				-65,510	-52,260	-16,000	-68,260	-52,260	-16,000	-68,260

REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure										
SPA	Actions	BEL	BEL Number	2012-13 Supplementary Budget June 2012	2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011	2013-14 Changes	2013-14 New Plans Draft Budget	2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011	2014-15 Changes	2014-15 Indicative Plans Draft Budget
	Housing, Regeneration and Heritage - Summary									
	Revenue DEL			278,330	279,597	1,825	281,422	279,643	1,830	281,473
	Capital DEL			314,318	262,564	12,500	275,064	262,564	6,000	268,564
Total DEL				592,648	542,161	14,325	556,486	542,207	7,830	550,037
Annually Managed Expenditure				-65,510	-52,260	-16,000	-68,260	-52,260	-16,000	-68,260
Total - Housing, Regeneration and Heritage				527,138	489,901	-1,675	488,226	489,947	-8,170	481,777

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cyllideb ddrafft y Gymraeg o fewn y portffolio Addysg a Sgiliau.

Diben

1. Darparu papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghylch cyllideb ddrafft y Gymraeg yn y portffolio Addysg a Sgiliau ar gyfer 2013-14.
2. Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a amlinellir yn y papur ar gyfer pethau a enwir mewn rhaglenni penodol i hybu'r Gymraeg. Nid oes modd rhoi ffigurau ar gyfer y costau cyffredinol o hybu'r Gymraeg, oherwydd mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o weledigaeth Llywodraeth Cymru, ac mae darparu gwasanaethau'n ddwyieithog wedi'i brif ffrydio yn ei holl feysydd gwaith.

Yr amserlen

3. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 2 Hydref 2012.

Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2013-14

4. Mae Cyllideb Ddrafft 2013-14 yn darparu cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 ceir trosolwg o'r gyllideb sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Addysg a Sgiliau sef y 'Prif Grŵp Gwariant' (MEG). Hefyd, mae modd gweld y newidiadau i'r gyllideb ddangosol ers cyhoeddi'r Gyllideb Ddangosol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012 (a oedd yn ailddatgan y gyllideb Addysg a Sgiliau gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau portffolio ers y Gyllideb Derfynol).

Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau

	2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000	2013-14 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol £000	2013-14 Newidiadau £000	2013-14 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000	2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol £000	2014-15 Newidiadau £000	2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000
Refeniw DEL	1,676,529	1,694,824	-21,025	1,673,799	1,702,459	-20,825	1,681,634
Cyfalaf DEL	178,293	143,834	33,300	177,134	143,834	10,000	153,834
Cyfanswm DEL	1,854,822	1,838,658	12,275	1,850,933	1,846,293	-10,825	1,835,468
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	178,309	161,285	15,584	176,869	153,310	29,839	183,149
Addysg a Sgiliau	2,033,131	1,999,943	27,859	2,027,802	1,999,603	19,014	2,018,617

5. Mewn papur tystiolaeth tebyg, a luniwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 17 Hydref a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 10 Hydref, mae gwybodaeth fanwl am weddill y cyllidebau Addysg a Sgiliau sy'n berthnasol iddynt.

Is-adran y Gymraeg

6. Sefydlwyd Is-adran y Gymraeg ym mis Ionawr 2012, drwy ddwyn ynghyd:

- Uned y Gymraeg mewn Addysg - sy'n gyfrifol am y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
